# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd ar:** | **14 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Cyngor Sir Ddinbych ac Ysgrifennydd yr AHNE.** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Cyfreithiwr/Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Mabwysiadu Cyfansoddiad AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â mabwysiadu'r cyfansoddiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ni fydd y Cydbwyllgor yn gallu gweithredu'n effeithiol os na fydd cyfansoddiad un o’r cynghorau yn cael ei fabwysiadu ac mae'n angenrheidiol i'r pwyllgor fabwysiadu cyfansoddiad sydd wedi ei deilwra i'w anghenion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r cyfansoddiad sydd ynghlwm wrth Atodiad 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cyfeirir aelodau at y manylion hunaneglurhaol a gynhwysir yn y cyfansoddiad. Felly nid oes angen ailadrodd y manylion yn yr adran hon.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd y cyfansoddiad yn cefnogi gwneud penderfyniadau cyfreithlon a thryloyw sydd yn rhaid i’r Cydbwyllgor eu gwneud.

**6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd trefn lywodraethu’r Cydbwyllgor yn y dyfodol yn cael ei bodloni o fewn y cyllidebau presennol a bydd y gost ynghlwm wrth sefydlu'r strwythur cyfreithiol yn cael ei chwrdd yn fewnol gan dimau cyfreithiol y cynghorau.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam wedi llofnodi Cytundeb Cyfreithiol sy’n cynnwys Atodlen gyda'r cyfansoddiad. Mae’r cytundeb wedi ei graffu arno yn ôl yr angen gan bob awdurdod.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Nid oes unrhyw risg wedi ei ganfod. Mae'r cytundeb cyfreithiol yn nodi rhwymedigaethau priodol ac yn darparu darpariaethau terfynu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i ‘Gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cydbwyllgor'.